# Adroddiad Arolygu ar

**Bryn Meddyg Care Home Ltd**

**Bryn Meddyg**
**Caernarfon**
**LL54 5AG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

Arolygiad cyntaf o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Bryn Meddyg Care Home Ltd

| | |
|---|---|
| Math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br><br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | BRYN MEDDYG CARE HOME LTD |
| Lleoedd cofrestredig | 33 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae pobl yn hapus gyda'r gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn ym Mryn Meddyg. Gwnaethom ddweud wrthym fod y gweithwyr gofal yn gyfeillgar, yn garedig ac yn gynorthwyol. Mae gweithwyr gofal yn cefnogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau, hobïau a diddordebau. Mae cynlluniau personol yn darparu manylion ynglŷn â sut i ddiwallu anghenion pobl ond nid yw rhai o'r rhain yn cael eu hadolygu nac yn gyfredol. Mae asesiadau risg yn eu lle i ddiogelu pobl a staff fel ei gilydd.

Mae'r staff yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r dirprwy reolwr. Mae'r staff yn dilyn proses recriwtio sydd yn cynnwys yr holl wiriadau angenrheidiol ac yn derbyn yr hyfforddiant angenrheidiol i fod yn fedrus yn eu rolau. Mae staff yn derbyn sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd.

Saif yr adeilad ar ei dir ei hun, yn agos iawn at gyfleusterau lleol. Mae'r cartref yn lân heb unrhyw arogleuon annifyr. Mae pob ardal o'r cartref yn cael ei haddurno i safon dda.

## Llesiant

Mae gan bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae'r staff yn eu trin gyda pharch ac mae eu barn yn bwysig. Gwelsom fod y staff yn ymorol ac yn ymateb yn brydlon i anghenion a hoffterau unigolion. Mae'n glir bod staff yn adnabod y bobl sy'n byw yn y cartref yn dda ac maent yn cyfathrebu yn yr iaith a ffefrir ganddynt. Mae'r bobl wedi ymlacio ac yn gyfforddus ym mhresenoldeb staff, sy'n cyfathrebu mewn modd cyfeillgar, gofalgar a pharchus. Dywedodd un unigolyn, *“Mae'r merched yn hyfryd, mae'n fendigedig yma, mae fel gwesty pedair seren.”* Mae staff yn annog pobl i fynegi eu hunain a gwneud penderfyniadau o ran pethau fel dillad a golwg.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy’n bwysig iddynt ac yn profi gweithgareddau newydd. Mae offer rhyngweithiol newydd ar gael i'r bobl ei ddefnyddio ac mae cegin fach wedi'i chreu i bobl wneud byrbrydau, pobi cacennau a pharatoi lluniaeth. Mae detholiad o lyfrau a gemau ar gael o gwmpas y cartref a dywedodd un unigolyn ei fod yn mwynhau darllen y papur newyddion dyddiol. Mae caban yn yr awyr agored / tŷ haul yn galluogi pobl i gwrdd â'u perthnasau mewn amgylchedd diogel yn dilyn canllawiau'r llywodraeth mewn perthynas â COVID-19. Mae cofnodion yn dangos bod staff yn trefnu gweithgareddau amrywiol.

Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel ac mae'r staff yn eu hamddiffyn rhag niwed. Gwnaeth y staff ofyn am ein dull adnabod wrth gyrraedd ond ni wnaethon nhw ofyn am gadarnhad o brawf COVID-19 negatif. Yn dilyn cyngor y llywodraeth, mae system archebu ar waith i deulu a ffrindiau ymweld â phobl; mae'r system hon yn cynnwys gofyn i ymwelwyr gymryd prawf llif unffordd cyn mynd i mewn i'r adeilad. Gwelsom fod staff yn cadw gwybodaeth yn ddiogel er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

Mae amgylchedd y cartref yn cefnogi pobl i gyflawni safon dda o lesiant. Mae'r ystafelloedd gwely en suite wedi'u personoli ag eiddo'r pobl eu hunain ac mae mannau cymunol i bobl eistedd a siarad neu gymryd rhan mewn gweithgareddau.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu eu cynlluniau personol eu hunain, sy'n cynnwys canlyniadau personol mewn perthynas ag iechyd a llesiant pobl. Mae cynlluniau personol ac asesiadau risg pobl yn adlewyrchu sut yr hoffent gael eu cynorthwyo. Nid yw'r holl gynlluniau personol a welwyd wedi cael eu hadolygu i gynnwys anghenion pobl sydd wedi cael eu hailasesu. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella a disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau; byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

Darperir gweithgareddau a chyfleoedd priodol a rheolaidd i bobl ddilyn diddordebau neu hobïau. Mae'r staff yn rhyngweithio â phobl mewn ffordd ystyrlon ac maent yn ymwybodol o hoffterau unigolion mewn perthynas ag adloniant. Gall y bobl ddewis sut i dreulio eu diwrnodau, naill ai mewn un o'r ardaloedd cymunedol o gwmpas y cartref neu yng nghysur eu hystafelloedd eu hunain. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys darllen y papur newyddion, gwaith celf, gwylio'r teledu, neu gyfarfod â'u hymwelwyr. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn edrych ymlaen at ddefnyddio'r gegin fach newydd. Cedwir cofnodion o weithgareddau er mwyn rhoi tystiolaeth o gyfraniad pobl. Mae gan y cartref luniau o weithgareddau.

Mae prosesau ar waith i ddiogelu pobl. Mae asesiadau risg unigol ar waith ac mae staff yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud yr atgyfeiriad perthnasol i'r awdurdod lleol os oes ganddynt unrhyw bryderon ynglŷn â'r bobl y maent yn eu cefnogi. Mae gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld, gan gynnwys nyrsys, wedi cynnal cyswllt â'r cartref yn ystod y pandemig. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol sy'n ymweld wrthym fod perthynas waith dda rhwng y cartref a gweithwyr iechyd proffesiynol. Dywedodd nad oed unrhyw bryderon am y gwasanaeth. Dywedodd gweithwyr gofal wrthym eu bod nhw'n ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu a bod staff yn derbyn hyfforddiant diogelu cyfredol.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid ac yn rheoli'r risg o heintiau. Ers pandemig y coronafeirws, mae'r darparwr wedi cyflwyno gwybodaeth ychwanegol am y rhagofalon pellach sydd eu hangen i'r staff. Mae arferion diogel yn cael eu cynnal a rhoddir y cyfarpar diogelu personol priodol i'r staff fel y gallant roi gofal i bobl yn ddiogel. Cadarnhaodd staff gofal fod ganddynt fynediad at gyfarpar diogelu personol digonol a dywedodd pobl sy'n derbyn gwasanaeth eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel gyda'r arferion cyfredol sydd ar waith. Mae ymweld â'r cartref yn parhau, yn dilyn canllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae biniau heb gaeadau ar hyd y coridorau o hyd, sydd yn peri risg o heintiau.

## Yr Amgylchedd

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn amgylchedd sy'n hyrwyddo llesiant pobl. Mae pob ardal o'r cartref wedi ei haddurno a'i dodrefnu i safon dda. Mae ystafelloedd pobl wedi eu personoli, ac mae offer personol yn cynnwys ffonau symudol a phethau cofiadwy. Dywedodd pobl wrthym eu bod nhw'n hapus gyda'u hystafelloedd gwely a dywedodd un unigolyn y dewisodd fyw yn y cartref. Dywedodd unigolyn arall wrthym y cynigiwyd ystafell fwy iddo pan ddaeth un ar gael. Mae cymhorthion ac addasiadau digonol i hyrwyddo annibyniaeth. Atgyfeirir unrhyw atgyweiriadau sydd eu hangen at y tîm rheoli a gweithredir arnynt yn brydlon.

Gall bobl fod yn hyderus bod trefniadau rheoli heintiau ar waith ar y cyfan. Mae'r cartref yn lân heb unrhyw arogleuon ac mae protocolau rheoli heintiau, sy'n cael eu dilyn. Ers pandemig y coronafeirws, mae ystafell ddynodedig i ymwelwyr yn yr adeilad a chaban yn yr awyr agored wedi'u creu er mwyn i bobl gael ymwelwyr. Mae amseroedd ymweld yn cyfyngedig ac fe'u trefnir gan apwyntiad, gyda gofyn i ymwelwyr gael prawf llif unffordd cyn ymweld. Gellir cryfhau'r trefniadau hyn trwy sicrhau bod yr holl brofion llif unffordd yn cael eu gwneud yn yr ardal benodedig yn y cartref yn dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae digon o gyfarpar diogelu personol o gwmpas y cartref i bobl a staff ei gyrchu.

Nid yw risgiau i iechyd a diogelwch pobl yn cael eu lleihau drwy'r amser. Gwelsom finiau heb gaeadau o amgylch yr adeilad. Ni chofnodir tymheredd yr oergell neu'r rhewgell bob dydd. Nid yw gwiriadau diogelwch tân wythnosol yn cael eu cofnodi i ddangos eu bod wedi eu cynnal bob wythnos. Caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel ar y safle ac mae staff sy'n rhoi meddyginiaeth wedi derbyn hyfforddiant.
Mae un unigolyn yn hunan-feddyginiaethu ond nid oes archwiliad i staff fod yn fodlon bod yr unigolyn yn cymryd ei feddyginiaeth ragnodedig. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella a disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau; byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau ar waith i gynnal trosolwg o'r gwasanaeth. Mae prosesau ar waith i fonitro safon y gwasanaeth. Mae'r unigolyn cyfrifol wedi cefnogi'r gwasanaeth a'r tîm rheoli trwy'r pandemig. Lleolir gweithle yr unigolyn cyfrifol yn y gwasanaeth ac mae'n siarad â phobl a staff yn rheolaidd er mwyn cael eu barn. Mae adroddiad chwarterol ar gael sy'n amlinellu pa gamau/datblygiadau sydd wedi'u cymryd ac unrhyw brosiectau sydd ar ddod.

Mae pobl yn cael eu cynorthwyo gan wasanaeth sydd â nifer digonol o staff sydd yn ddigon gymwys ac sydd â'r wybodaeth, cymwyseddau a sgiliau i ddiwallu eu hanghenion. Dywedodd y staff eu bod nhw'n cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol, a'u bod nhw'n rhan o raglen datblygu staff sy'n cynnwys hyfforddiant. Trefnir sesiynau goruchwylio bob chwarter gyda'r arfarniad chwarterol yn cael ei gynnwys yn y bedwaredd sesiwn oruchwylio.

Mae cofnodion yn dangos bod gwiriadau gofynnol yn cael eu cynnal cyn i staff gychwyn mewn cyflogaeth yn y cartref. Mae rhestr wirio wedi cael ei chyflwyno i ymgeiswyr newydd i sicrhau bod yr holl wiriadau gofynnol yn cael eu cwblhau. Yn sgil cyfyngiadau'r llywodraeth, nid yw llawer o hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi digwydd ers y pandemig. Darperir cyfleoedd dysgu amgen i'r staff, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol a phenodol. Mae hyfforddiant mewn cymorth cyntaf a diogelwch bwyd wedi cael ei ddarparu gyda hyfforddiant diogelwch tân wedi'i drefnu ar gyfer dechrau 2022. Roedd staff digonol yn gweithio ar ddiwrnod yr arolygiad.

Mae gan y gwasanaeth ddatganiad o ddiben, sydd yn disgrifio'n glir i bwy mae'r gwasanaeth a sut y bydd yn cael ei gyflenwi. Mae pobl yn cael gwybodaeth sydd yn disgrifio'r gwasanaeth ac yn rhoi gwybod iddynt sut i wneud cwyn. Nid yw'r datganiad o ddiben yn bodloni deddfwriaeth gyfredol ynglŷn â Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella a disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau; byddwn yn mynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| 7 | Mae angen adolygu'r datganiad o diben er mwyn cynnwys gwybodaeth a deddfwriaeth gyfredol. | Newydd |
| 57 | Nid oed unrhyw dystiolaeth o gofnodion dyddiol o dymheredd yr oergell/rhewgell, gan gynnwys yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaeth ragnodedig y mae angen ei hoeri. Nid oes tystiolaeth o gwblhau profion larwm tân wythnosol. Nid yw archwiliadau meddyginiaeth ar waith i'r rhai sy'n hunan-feddyginiaethu.  Lleolir biniau heb gaeadau o amgylch y cartref. | Newydd |
| 16 | Nid yw cynlluniau personol pobl yn cael eu hadolygu yn unol â'r rheoliadau. Nid yw adroddiadau monitro misol, gan gynnwys asesiadau risg a'r ddogfen 'Dyma Fi', yn gyson. Mae'n rhaid adolygu cynlluniau personol y bobl yn ôl yr angen ond o leiaf bob tri mis. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 18/01/2022